Beech House,
King Street,
Blaenafon,
Sir Fynwy.

28 Ionawr 1842

Annwyl Elizabeth,

Rwyf wedi cyrraedd fy nghartref newydd o'r diwedd, ar ôl taith hir a blinedig. Rwyf wedi cael fy synnu yn fawr gan yr holl newidiadau ym Mlaenafon. Prin y gallaf ei adnabod fel y lle a adewais bron i hanner can mlynedd yn ôl.

Mae'r cwm gwyrdd prydferth oedd yma adeg fy mhlentyndod wedi diflannu. Yn anffodus, lle bynnag rwy'n edrych yn awr rwy'n gweld pyllau glo a gwaith haearn swnllyd. Mae'r aer yn llawn mwg du trwchus a mwg o'r ffwrneisiau tanbaid. Mae'r mwg yn gwneud i mi besychu, fel fy nghetyn, ond mae'n amhosibl dianc rhag y cymylau du, gwenwynig. Mae sŵn yr injans stêm a'r holl forthwylion bron yn annioddefol. Maen nhw wrthi ddydd a nos yn ddibaid.

Ar un adeg, dim ond defaid a chwningod oedd i'w gweld ar ochr y mynydd, ond yn awr mae'r dref brysur yn ymestyn ar draws y tir. Yn y gymuned rwy'n ei chofio roedd pob wyneb yn gyfarwydd ac roedd pawb yn adnabod ei gilydd. Erbyn hyn mae'r holl wynebau a lleisiau yn gwbl estron. Yn y deuddydd ers i mi gyrraedd rwyf wedi ceisio dod o hyd i hen ffrindiau, ond rwyf wedi methu gan i mi ddrysu'n llwyr ynghanol yr holl strydoedd. Mae yna gymaint o strydoedd yn awr, pob un yn arwain at lefydd anghyfarwydd. Mae'r adeiladau prysur, budr yn taflu cysgod dros ardal a oedd unwaith yn gefn gwlad godidog.

Wrth i mi eistedd yma yn ysgrifennu'r llythyr hwn gallaf glywed y bobl wyllt yn baglu allan o'r tafarnau gwarthus a gerddais heibio yn gynharach. Yn nhref newydd Blaenafon mae'n ymddangos bod yna ddiwylliant ofnadwy o 'weithio drwy'r dydd ac yfed drwy'r nos'.

O! Gwrandewch arna i! Onid ydw i'n hen ddyn sarrug! Dylwn i ddweud wrthych am y pethau da ym Mlaenafon hefyd. Mae Tŷ Mawr, cartref y Meistr Haearn, yn hynod drawiadol, ac mae Eglwys Sant Pedr gyferbyn yn adeilad ysblennydd hefyd. Mae yna ysgol drws nesaf iddi, sy'n rhywbeth prin iawn yn y trefi diwydiannol truenus hyn.

Efallai na ddylwn i fod mor llym wrth farnu pobl y dref. Mae'r gwaith yma yn fudr ac yn ofnadwy o anodd, ac mae hyd yn oed plant bach yn gorfod gweithio dan y ddaear ac wrth y ffwrneisiau. Druan â nhw! Mae yna gapel ar bron bob cornel, felly mae'n amlwg nad yw pawb mor wyllt ac annuwiol â'r bobl rwyf wedi eu cyfarfod hyd yn hyn. Mae'n debyg y daw rhywbeth da o'r lle hwn yn y pen draw, er rwy'n siŵr y byddaf wedi fy hen gladdu erbyn hynny.

Eich ffrind annwyl,
William.